# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 5ed o Ragfyr 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Anwen Jones, Dylan Thomas, Euros Jones, Angela Williams, Gareth O.Davies, Aled Davies, Dewi Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Rhys Tudur, Tegid Jones, Miriam Williams, Delyth Parry, Darren Morley.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Dachwedd 2024.**

3. **Cadeirydd yn llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Tachwedd 2024.**

4. **Datgan buddiant personol – neb.**

5. **Llifogydd yn dilyn storm 'Bert'** – neb wedi adrodd fod problemau o fewn y gymuned.

6. **Arolwg Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013**
Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu cynnal yr arolygon cymunedol canlynol:
a) **Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol** (o dan adran 31 o'r Ddeddf)–mae hyn yn golygu ystyried y trefniadau etholiadol o fewn pob cymuned yng Ngwynedd,sef nifer y cynghorwyr a nifer a natur y wardiau.
b) **Arolwg o Ffiniau Cymunedol** (o dan adran 25 o'r Ddeddf) – mae hyn yn golygu ystyried ffiniau cymunedau penodol lle mae materion perthnasol wedi dod i'w sylw.

Maent felly yn cychwyn y cyfnod cyntaf o ymgynghori yn y broses yma, drwy gasglu gwybodaeth sydd ei angen i ystyried a pharatoi unrhyw gynigion ar gyfer newid. Cadeirydd yn cadarnhau nad oedd hyn yn effeithio Cyngor Cymuned Llanystumdwy.

Mae'r cyfnod cyntaf o ymgynghori yn dechrau ar 11.11.2024 ac yn gorffen ar 20.12.2024. Mae angen ymateb ar wefan Cyngor Gwynedd isod:- https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Pleidleisio-ac-etholiadau/Arolygon-Cymunedol-o-dan-Ddeddf-Llywodraeth-Leol-DemocratiaethCymru-2013.aspx

7. **Ymateb Un Llais Cymru i ymchwiliad y Senedd i Gynghorau Cymuned a Thref** - derbyniwyd adroddiad ganddynt er gwybodaeth.

8. **Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg** – cyfarfod yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog, nos Wener 06.12.2024 am 7:00 gyda'r Dr.Simon Brookes yn annerch.

Hefyd, yn dilyn cyfarfod 03.10.2024, a'r cynnig gan Cyngor Cymuned Llanystumdwy i gymeradwyo Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, derbyniwyd sawl ebost o

gefnogaeth gan Cynghorau Tref a Chymuned yr ardal. Derbyniwyd ymateb gan Mark Drakeford ar 22.11.2024 yn dweud:-

"*Diolch yn fawr am eich llythyr ynglŷn ag adroddiad 'Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg' gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst eleni. Rydym ninnau hefyd, yn croesawu'r adroddiad ac rydym ar hyn o bryd yn ystyried canfyddiadau'r Comisiwn a byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion maes o law".*

9. **Cais gan Arfon Hughes, o Cymunedoli Cyf**., eisiau dau gynrychiolydd i gyfarfod ym mis Ionawr i ystyried y ffordd ymlaen. Gawsant gyfarfod yn Sarn ar 20.11.2024, hefo Partneriaeth Ogwen, ond nid oedd unrhywun o Gyngor Cymuned Llanystumdwy ar gael i'w fynychu. **Penderfynwyd aros i gael dyddiad y cyfarfod nesaf gyntaf cyn penderfynu pwy fyddai'n gallu bod yn bresennol.**

10. **Rheilffordd y Cambrian** - Y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod rheilffordd y Cambrian, a gofynwyd i bawb arwyddo deiseb sydd ar lein, o'r enw Diogelu Rheilffordd y Cambrian.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

11. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-**
a) Cais rhis C24/0974/41/LL - **Cofnod Stryd, Afonwen.**
Cau'r mynediad presennol a chreu mynediad newydd i'r cae fel rhan o'r addasiadau ar gyfer Llwybr Teithio Llesol Afonwen. **Cefnogi.**

b) C24/0988/41/LL -, **Hendy Yr Ynys, Cricieth**.
Ymestyn adeilad amaethyddol ac adeiladu storfa slyri o dan y llawr. **Cefnogi.**

c) C24/1003/41/TR - **Ty'n Rhos Penarth, Chwilog**.
Uwchraddio llinell uwchben 11kv presennol i Dri Cam i uwchraddio'r cyflenwad i Ty'n Rhos, Penarth, Chwilog. **Cefnogi.**

ch) C24/0985/41/LL - **Ael y Drem, Pencaenewydd**.
Adeiladu sied ar gyfer cadw defaid a storio cyffredinol. **Dim gwrthwynebiad.**

12. **Sedd wag yn Ward Llanarmon**. Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Huw Elfed Williams, Swyddog Etholiadau yn dweud na wnaeth neb ymateb. Felly mae wedi anfon rhybudd hysbysiad cyfethol at y Clerc, ac mae wedi ei osod o flaen Neuadd Chwilog ar 04.11.2024 (a'r wefan) hefo dyddiad cau **25.11.2024** er mwyn medru cyfethol. Y Cynghorydd Dylan Thomas am wneud ymholiadau.

**Materion yn y gymuned**.

13. **Llanystumdwy**
a) **Baw cwn yn y pentref** - Clerc eisioes wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

b) **Caerffynnon – problemau**. Clerc wedi derbyn cwynion gan rai o'r tenantiaid, ac aelodau o'r cyhoedd ynglyn â digwyddiadau yn ystod y misoedd diwethaf. Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Heddlu, a chymdeithas dai ADRA yn cadarnhau ei bod yn delio hefo'r sefyllfa. Y Cadeirydd yn awgrymu y dylid cwyno am y Polisi Tai, a'r broses o osod tenantiaethau i denantiaid newydd.
14. **Rhoslan/Ynys**

15. **Chwilog**

**Llwybr o Chwilog i Afonwen- Teithio Llesol**

Dyma'r ymateb gafwyd gan Reolwr Traffig a Phrosiectiau, Cyngor Gwynedd ar 20.11.2024.

"Rydym yn cydnabod yn llwyr y teimladau cryf o fewn eich cymuned i sefydlu'r llwybr aml-ddefnydd, a fyddai'n cysylltu Chwilog â'r rhwydwaith cerdded a beicio ehangach yn yr ardal. Yn hynny o beth, mae sefydlu'r llwybr canlynol yn uchel o ran blaenoriaethau'r gwasanaeth i wella'r rhwydwaith cerdded a beicio yn y sir.

Yr her fwyaf sydd gennym yw dod o hyd i'r arian angenrheidiol i adeiladu'r ddarpariaeth. Yn ôl y wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno i ni, byddai adeiladu'r ddarpariaeth yn costio dros filiwn o bunnoedd. Mae ceisio denu'r lefel honno o arian yn dipyn o fynydd i'w ddringo oherwydd yr her ariannol drychinebus y mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu ynddi ar hyn o bryd. Felly, er mwyn symud y cynllun yn ei flaen, mae angen inni fod yn fwy pragmatig yn y ffordd yr ydym yn gweithio. Gyda'r hynny mewn golwg, rydym wedi penderfynu peidio â cheisio dringo'r mynydd mewn un symudiad drwy gyflwyno bid am yr holl arian. Yn hytrach, byddwn yn cymryd camau bach drwy gyflwyno bid ar gyfer rhan gyntaf y cynllun, sef creu cyswllt rhwng y briffordd a golchdy Afonwen yn unig. Byddai cymryd camau bach yn cynyddu ein siawns o wireddu'r cynllun cyfan yn sylweddol.

Yn dilyn cyfarfod ychydig wythnosau yn ôl gyda Llywodraeth Cymru, cawsom wybodaeth y byddai cyllid ar gyfer cynlluniau Teithio Llesol yn gostwng yn sylweddol yn 2025, hyd at hanner y lefel sydd wedi bod ar gael i Gynghorau lleol yn y gorffennol. Rydym hefyd wedi derbyn cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru mai dim ond un cynllun teithio llesol y gall y Cyngor ei gyflwyno, sydd werth dros £300K, yn 2025.

Gan ei bod yn edrych yn debyg nad oes digon o arian ar gael i weithredu'r holl gynlluniau Teithio Llesol gwerth dros £300K, ym mhob Cyngor yng Nghymru, mae'n anochel y byddai angen i Wynedd gyflwyno cais sydd â'r siawns orau o lwyddo.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw creu llwybr cerdded a beicio rhwng Afonwen a Chwilog yn bodloni'r holl meini prawf allweddol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Gyda mwy o gystadleuaeth rhwng Cynghorau, mae'n anochel y bydd angen i ni ddewis ein cynlluniau yn ofalus.

Mae'r penderfyniad hwn wedi amharu ar nifer o gynlluniau eraill yng Ngwynedd, sef creu llwybr rhwng Tywyn ac Afonwen, Llanrug a Chaernarfon, Bethel a Chaernarfon a'r cynllun rhwng Y Ffor a Phwllheli.

Fodd bynnag, trwy flaenoriaethu'r cynllun canlynol fel cynllun Teithio Llesol craidd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn nes at wireddu'r cyswllt cyfan.

Gan fod y wybodaeth sydd angen ei chyflwyno fel rhan o'r cais yn llawer llai llafurddwys ac nad yw'r cynllun yn cystadlu ag unrhyw gynllun arall, nid ydym yn credu ein bod angen eich cymorth i gyflwyno cais am arian i adeiladu'r rhan gyntaf y llwybr yn 2025".
**Gofynwyd i'r Clerc anfon ebost at Mr Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd yn mynegi pryder am y bwriad diweddaraf i geisio rhannu'r cais am grant fel bod y datblygad yn digwydd fesul cam. Hefyd i ddatgan pryder fod y penderfyniad yma i rannu'r cais wedi cael ei wneud oherwydd fod paratoad y cais grant yn parhau i fod yn anghyflawn.**

16. **Pencaenewydd/Sardis**
17. **Llangybi**

**Cae chwarae Llangybi** – pris i ail beintio a thacluso'r fainc. Wedi holi am bris, ac yn gobeithio y caiff ei dderbyn erbyn y cyfarfod nesaf.

18. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.11.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

19. **Archwilio allanol** – derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Deryck Evans, Archwilio Cymru (ar 14.11.2024) fod popeth yn iawn hefo'r archwiliad allanol am y flwyddyn yn diweddu 31.03.2024.
Bydd y ffurflen flynyddol yn cael ei gosod ar y wefan, a'r 'Hysbysiad o Gasgliad Archwilio a'r Hawl i Archwilio'r Ffurflen Flynyddol'.

20. **Praesept/Cyfarfod Cyllid/Busnes** – wedi cael ei gynnal o flaen y prif gyfarfod 07.11.2024. Roedd y Clerc wedi anfon y cofnodion, a'r ddogfen rhagolwg cyllideb am y flwyddyn 01.04.2025-31.03.2026 at y cynghorwyr i gyd o flaen cyfarfod 05.12.2024.
Roedd pawb yn gytun y dylid cynyddu'r praesept o 2.5% (lefel chwyddiant, ac am fod costau'n codi'n flynyddol), sef o £20,000.00 i **£20,500.00 am y flwyddyn 01.04.2025 ymlaen**. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd erbyn 31.01.2025 i'w hysbysu.

21. **Elusen William Ellis** – hysbyseb wedi cael ei roi yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd, hefo dyddiad cau i dderbyn cais erbyn 28.11.2024. Bydd y cais a dderbyniwyd yn cael ei drafod yn dilyn y prif gyfarfod ar 05.12.2024 hefo Cynghorwyr Llanystumdwy.

22. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Mae hysbyseb wedi cael ei anfon i'w roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2024 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2025.

23. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Alan Adams | Cae chwarae Llangybi<br><br>Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch.<br>Cyfanswm | **780.00**<br><br>**100.00**<br><br>**880.00** | | **780.00**<br><br>**100.00**<br><br>**880.00** | **780.00**<br><br>**100.00**<br><br>**880.00** |
| Gwaith Garddio Rhys Jones | *O dan bont y rheilffordd i draeth Afonwen-wedi methu gwneud oherwydd tyfiant canclwm yno-Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.*<br>Ynysgain Bach at bont rheilffordd.<br>*Lon fawr at fythynnod Tŷ Newydd.* | **0.00**<br><br>**130.00**<br><br>**180.00** | | **0.00**<br><br>**130.00**<br><br>**180.00** | **0.00**<br><br>**130.00**<br><br>**180.00** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bontfechan-Tyn Morfa.<br><br>*Ceg llwybr hen ffordd Abercin.*<br>Safle Bedd Lloyd George yn ystod y tymor.<br>*Maenywern, Llanystumdwy*<br><br>**Cyfanswm** | **390.00**<br><br>**35.00**<br><br>**125.00**<br><br>**120.00**<br><br>**980.00** | | **390.00**<br><br>**35.00**<br><br>**125.00**<br><br>**120.00**<br><br>**980.00** | **390.00**<br><br>**35.00**<br><br>**125.00**<br><br>**120.00**<br><br>**980.00** |
| Neuadd Chwilog | Llogi'r Neuadd 03.10.24 | **15.00** | | **15.00** | **15.00** |

24. Cyflog mis Tachwedd 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2024<br>35 awr y mis x £17.79 = £622.65 | 622.65<br>Llai treth-<br>£124.60 =<br>**£498.05** | **498.05** | **498.05** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2024<br>£623.00 x 20% = £124.60 | **£124.60** | **124.60** | **124.60** |
| Costau swyddfa Clerc Tachwedd 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

24. **Sbwriel Mynwent Llanystumdwy.**

Derbyniwyd ebost gan Haydn Jones, Cyngor Gwynedd (05.12.2024 er gwybodaeth), yn cadarnhau ei fod yn cydymdeimlo â'r sefyllfa o reoli cynnwys y bin brown a'i bod bron yn amhosib gwneud hynny. Mae wedi gofyn wrth Bwyllgor y Fynwent efallai y byddai'n syniad iddynt fynd yn nol i bin gwyrdd sbwriel ar gyfer y fynwent a'i bod yn darparu bocsys glas ar gyfer yr elfen ailgylchu, gwydr ac plastigion yn unig efaillai. Byddai cael darpariaeth o'r fath yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau newydd.

Cadarnhaodd mai y Gwasanaeth Gofal Stryd sydd yn gyfrifol am osod biniau sbwriel ar y stryd a byddai rhaid cyfeirio unrhyw gais at reolwr y gwasanaeth Mr Peter Simpson, a'i fod wedi ei hysbysu fel ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa.

O ran mynd yn nol i fin sbwriel, byddai casgliad wythnosol o'r bin yn £8.51 neu £443 am flwyddyn. Byddai amlder gwagio'r bin i fyny i Bwyllgor y Fynwent a byddai'r gost yn adlewyrchu'r nifer o gasgliadau mewn blwyddyn. Mae modd hefyd rhoi gwybod iddynt bob tro y bydd angen casgliad. O ran y bocsys glas, byddai rhain yn cael eu gwagio yn wythnosol gan y criw casglu domestig. Ni fyddai problem iddynt ei nhol o ochr mewn y giât. Gan mae treial fyddai'r bocsys glas er mwyn gweld os ydi'r drefn yn gweithio, ni fyddai unrhyw gost i'w gwagio.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **09.01.2025,** yn Festri Pencaenewydd (os bydd ar gael) a drwy Zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**